**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth Dros dro - Datblygu Economaidd
Acting Head of Service - Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435 ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Eifion L Jones
E-bost / Email:
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: 03 / 11 / 2011

Y Clerc,
Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd,
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd.
CF99 1NA

Annwyl Syr / Fadam,

**Yng: Grŵp Tasg a Gorffen Polisi Amaethyddol Cyffredin**

Diolch i chi am y cyfle i roi atborth i ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru I'r bwriad i ad-drefnu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.
Mae'r ymateb hwn wedi cael ei baratoi gan swyddogion o'r Uned Datblygu Economaidd ac nid yw wedi bod trwy brosesau gwleidyddol y Cyngor.

Hoffem gyflwyno'r sylwadau canlynol:

1. Pwysigrwydd y PAC I Amaethyddiaeth yng Nghymru

   Cydnabyddir pwysigrwydd y PAC I Amaethyddiaeth yng Nghymru a bod ei ddylanwad yn ymestyn y tu hwnt i giât y fferm i'r gymuned wledig ehangach. Heb gefnogaeth y PAC, derbynnir yn gyffredinol y byddai'r rhan fwyaf o fusnesau ffermio yn ei chael hi'n anodd parhau'n hyfyw. Câi hynny sgil-effeithiau ar dwristiaeth ac ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig.
   *Cyflwynir y ddadl felly y dylid gweithredu mesurau yn ara' deg i drawsnewid y modd y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud i ffermwyr er mwyn rhoi amser iddynt addasu i'r posibilrwydd o golli incwm.*

2. Datblygiad Gwledig Ehangach

   Rydym yn croesawu'r dull dwy golofn biler ac yn teimlo bod gwneud i ffwrdd â'r pedair echel gyfredol yn cynnig sgôp ar gyfer hyblygrwydd pellach, fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd cynnwys chwe blaenoriaeth, a thynnu'r pwyslais o ddatblygiad gwledig ehangach tuag at amaethyddiaeth yn golygu llai o arian ar gyfer datblygiadau gwledig ehangach.
   *Rydym yn annog felly bod cyllid ar gyfer datblygiadau gwledig ehangach yn cael ei gynnig ar y lefel gyfredol o leiaf.*

3. Economi Carbon Isel

   Croesewir cynnwys effeithlonrwydd adnoddau a symudiad tuag at economi carbon isel. Mae synergedd amlwg rhwng hyn a Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn. Fodd bynnag, rydym

yn teimlo bod cyfle wedi'i golli drwy gyfyngu'r gefnogaeth honno i'r sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a bwyd. Trwy wneud hynny, mae cyfraniad posibl mentrau cymunedol yn cael ei gau allan.
*Rydym yn dadlau y dylid ehangu'r flaenoriaeth hon i gynnwys busnesau gwledig eraill a mentrau sy'n seiliedig yn y gymuned.*

4. Symleiddio cyllid yr UE

   Croesewir mesurau sy'n symleiddio'r modd y mae cyllid yr UE yn gweithredu ar lefel leol oherwydd roedd y fiwrocratiaeth a oedd ynghlwm â darparu'r rhaglen gyfredol yn arwain at rwystredigaeth ac oedi. Rydym yn credu y dylai'r egwyddor o gytuno ar gamau gweithredu a'u cyflawni ar lefel leol i fynd i'r afael ag anghenion lleol barhau a bod rôl strategol yr Awdurdodau Lleol yn y broses hon yn hanfodol. Rydym o'r farn y byddai'n wrthgynhyrchiol i newid trefniadau partneriaeth sy'n gweithio'n effeithiol neu i sefydlu partneriaethau ychwanegol newydd lle mae trefniadau digonol eisoes yn bodoli.
   *Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awyddus i fod yn rhan o'r broses o lunio polisi ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru bob cam o'r broses honno.*

5. Fframwaith Strategol Cyffredin

   Rydym yn croesawu'r egwyddor o sicrhau gwell cydberthynas rhwng ffynonellau cyllido'r UE, ond mae gennym bryderon y gallai hyn yn y pen draw arwain at ganoli'r cyllid yn y trefi er anfantais i'r ardaloedd gwledig. Rydym yn credu bod y partneriaethau lleol yn cynnig ffordd o sicrhau bod cyllid yr UE yn cael ei ddefnyddio'n lleol mewn modd sy'n cwrdd ag anghenion lleol.

Rwy'n mawr obeithio y bydd y sylwadau uchod yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo'r pwyllgor yn ei drafodaethau. Petai angen eglurhad neu wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch yn y lle cyntaf os gwelwch yn dda gydag Eifion L Jones ar 01248 752417 neu anfonwch e-bost at eifionljones@anglesey.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir

**Dylan J. Williams**

Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro – Datblygu Economaidd